



Cymdeithas  
**Cyfieithwyr**  
Cymru

## Arholiadau Aelodaeth Testun Sylfaenol Ebrill 2022

### Adroddiad Cyffredinol

#### Y diffiniad o Aelodaeth Sylfaenol:

*Dyma'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei g'yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn o leiaf. Disgwylir iddo/i fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.*

**Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg**

**Tud. 2**

**Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

**Tud. 6**

## Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 29

Llwyddo: 12

Bu ychydig yn llai na hanner yr ymgeiswyr yn llwyddiannus yn yr arholiad Sylfaenol i'r Gymraeg y tro hwn, ac roedd sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol mewn un darn, ond heb lwyddo i'w chynnal ar hyd y papur. At hynny, roedd llond dynaid o'r rheiny wedi methu ar sail un elfen yn unig, sy'n anffodus. Er y byddant yn siomedig â'r dyfarniad, fe ddylai'r ffaith eu bod wedi dod o fewn trwch blewyn o lwyddo fod yn galondid iddynt. Anogir yr ymgeiswyr ffiniol hynny, a phawb arall sy'n ystyried sefyll yr arholiad yn y dyfodol, wrth reswm, i fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru i ymarfer cyfieithu darnau tebyg i'r rhai a osodir yn yr arholiad ac ymgyfarwyddo â'r safon sy'n ofynnol. Mae'r e-weithdy cyfieithu yn fuddiol hefyd gan ei fod yn rhoi cyfle i gyfieithwyr gael adborth manwl ar eu gwaith.

Roedd y ddau ddarn a osodwyd yn ymdrin â phynciau digon cyfarwydd ac yn nodweddiadol o destun a allai gyrraedd desg cyfieithydd wrth ei waith. O ystyried hynny, siom oedd gweld enghreifftiau niferus o gyfieithu esgeulus a diofal, yn y darn cyntaf yn arbennig:

*...the UK and Welsh Governments...*

*...llywodraeth Cymru a'r DU...*

*...mae'r DU a'r Llywodraethau yng Nghymru...*

*...Llywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru...*

*The peat extracted for UK horticulture in 2020 could release up to 880,000 tonnes of CO<sub>2</sub> over its lifetime as a growing medium.*

Cafodd nifer o'r ymgeiswyr drafferth â'r frawddeg hon, a gwelwyd cymysgedd o wallau yn amrywio o amser y ferf:

*...gall y mawn sy'n cael ei dynnu...*

*...gallai'r mawn a echdynnir...*

i hegor elfennau ('UK' ac 'in 2020', er enghraifft), yn ogystal â newid '880,000 tonnes' i 88,000. A pharodd 'growing medium' (cyfrwng tyfu) gryn drafferth i lawer, a fethodd â chyfleu'r ystyr:

*...cyfrwng sy'n tyfu...*

*...cyfrwng cynyddol...*

Gwelwyd gwallau ystyr arwyddocaol eraill hefyd, fel:

*...many thousands of tonnes...*

*...cannoedd o dunelli metrig...*

*...millennia...*

*...flynyddoedd maith...*

Roedd un ymgeisydd wedi gadael 'tonnes of CO<sub>2</sub>' yn Saesneg yng nghanol brawddeg ac un arall wedi camgyfieithu 'CO<sub>2</sub>' fel **carbon monocsid**. Does dim esgus am ddiolfalwch o'r fath, hyd yn oed mewn arholiad. Yn ogystal, roedd 'the Wildlife Trusts' wedi achosi trafferth i sawl un. Mae'r Saesneg yn cyfeirio at ymddiriedolaethau natur amrywiol gyda'i gilydd ('trusts' yn gyffredinol, nid un 'trust' yn benodol), ac eto roedd sawl ymgeisydd wedi'i adael yn Saesneg gan dybio mai enw swyddogol ydoedd neu wedi ysgrifennu nodyn i ddweud y byddai wedi ymchwilio i'r enw iawn. Gellid bod wedi osgoi'r holl wallau uchod trwy ddarllen y Saesneg yn ofalus ac ystyried cyd-destun y darn.

Yn anffodus, gwelwyd enghreifftiau niferus o ddefnydd anaddas o eirfa ac idiomau amhriodol a amharodd ar y ddau ddarn:

...peat...  
...**mawnen**... (yn lle **mawn**)

...shocking impacts...  
...**effeithiau dychrynlyd**...

...vast quantities...  
...**niferoedd helaeth**...  
...**maint enfawr**...

...average passenger car...  
...**car modur tebygol**...  
...**car teithwyr cyfartalog**...  
...**cerbyd cyffredinol**...

...thirty years...  
...**deg ar hugain mlynedd**...

Syndod oedd gweld llawer o ymgeiswyr yn camgyfieithu 'work from home' fel **gweithio o adref**, ac yn cael trafferth cyfleu 'biggest predictor' (**daroganwr mwyaf / gwahaniaethydd mwyaf / ffactorau rhagdueddu mwyaf**) a 'missing out' (**colli allan / fethu allan**). Ac afraid dweud, nid yw geiriau fel **rŵan**, **stopio** a **styrbio** yn addas mewn darn ffurfiol.

Y gwendid mwyaf yn y ddau ddarn, fodd bynnag, oedd y gystrawen. Gwelwyd enghreifftiau lu o fynegiant trwsogl a chyfieithu slafaidd a oedd yn dangos gafael ansicr ar yr iaith:

*The shocking impacts of extracting peat...*  
**Yr effeithiau syfrdanol o echdynnu mawn...**  
**Effeithiau ysgytiol o echdynnu mawn...**

...as much as 31 million tonnes of CO<sub>2</sub> could have been released...  
...**y gallai gymaint â 31 miliwn tonnell...wedi cael ei ryddhau**...

...as a direct result of using peat in gardening...  
...**fel canlyniad uniongyrchol o ddefnyddio mawn mewn garddio**...

...once peatland habitats are disturbed...  
...**unwaith mae ymyrryd â chynefinoedd mawndiroedd**...

...peat consumption in the UK increased rapidly by 9%...  
...**a chynyddodd y defnydd o fawn yn gyflym, 9%, yn y DU**...  
...**bu cynnydd cyflym o 9% yn nefnydd mawn yn y DU**...

...digital haves and have nots.  
...**rhwng y rhai sydd ac sydd heb hygyrchedd digidol.**  
...**rhwng yr hyn sy'n boblogaidd a'r hyn nad yw'n boblogaidd yn y byd digidol.**  
...**rhwng y rhai cefnog a'r rhai tlawd.**

...without offering offline alternatives or with offline alternatives being limited or restricted.  
...**heb gynnig dewisiadau amgen y tu hwnt i'r rhyngwrwyd, neu'n cynnig dewisiadau prin neu gyfyngedig y tu hwnt iddi.**

...age remains the biggest predictor of whether or not someone...  
...**mae oed yn parhau i fod y rhagfynegydd mwyaf o p'un a yw rhywun**...

...limited or no access to offline alternatives...

*...dewisiadau all-lein sy'n gyfyngedig neu nad sy'n bodoli...  
...ac maent dan anfantais sylweddol i ddewisiadau cyfyng neu ddewisiadau sydd ddim ar-lein...  
...neu ble mae dewisiadau amgen yn gyfyng, neu'n rhwystredig...*

Mae'r enghreifftiau uchod yn dangos diffyg hyder wrth drafod yr iaith. O ganlyniad, mae'r brawddegau a luniwyd yn lletchwith, yn hirwyntog ac yn anodd eu deall. Roedd enghreifftiau di-ri hefyd o hepgor geiriau, yn enwedig yn yr ail ddarn ('offline', 'increasingly', 'even greater', 'subsequent', 'seriously', 'digital technology' ('digital' ar goll), 'many more'). Camgyfieithwyd 'to varying degrees' sawl gwaith hefyd (**i ryw raddau / i raddau**). Nid geiriau llanw mo'r rhain; mae iddynt ystyr, a disgwylir i'r cyfieithydd gyfleu hynny'n iawn.

Ar ben hynny, siom oedd gweld llawer o wallau cywirdeb ar draws y ddau ddarn. Er nad oes disgwyl i sgrïptiau ymgeiswyr am Aelodaeth Sylfaenol fod yn ddi-fai, ni ddisgwylir gwallau elfennol megis:

*...ddod a'r defnydd o fawn...i ben...  
...effaith sylweddol ar natur â'r hinsawdd...  
...phrotest cynyddol...  
...gynigion...nad yw'n cynnwys...  
...gydag oblygiadau...  
...gadael lonydd...  
...defnyddio'r ddull...  
...cynyddol cyflym...  
...bobl na all ddefnyddio...  
...anfantais difrifol...  
...nac o'r blaen...  
...y rhai nad ydynt â mynediad...*

Roedd defnydd un ymgeisydd o atalnodi mor ddiotal, drwy ychwanegu llw o atalnodau'n ddiangen, fel bod paragraffau'n ddiystyr. Roedd dau ymgeisydd arall wedi hepgor brawddeg gyfan, ac un ohonynt wedi hepgor dwy frawddeg. Nid yw ymgeiswyr yn gwneud cyfiawnder â'u hunain trwy gyflwyno sgrïptiau gwallus o'r fath a does dim dewis gan yr arholwyr ond rhoi gradd is iddynt.

Er hynny, roedd yn galonogol gweld enghreifftiau niferus o gyfieithu llwyddiannus ar draws y sgrïptiau yng ngwaith y goreuon, a ddangosodd allu i drosi'r gwreiddiol yn gelfydd:

*If peat is left undisturbed – in bogs, not bags...  
**Os caiff mawn ei adael yn llonydd – mewn corsydd, nid bagiau...***

*...once peatland habitats are disturbed...  
...ar ôl tarfu ar gynefinoedd mawn...  
...unwaith yr ymyrrir â chynefinoedd mawndir...*

*The peat extracted for UK horticulture in 2020 could release up to 880,000 tonnes of CO<sub>2</sub> over its lifetime as a growing medium.*

**Gallai'r mawn a echdynnwyd at ddibenion garddio yn y DU yn ystod 2020 ryddhau hyd at 880,000 o dunelli o CO<sub>2</sub> yn ystod ei oes fel cyfrwng tyfu.**

*Industry progress towards peat-free alternatives has been slow and inconsistent...*

**Mae cynnydd diwydiant ... tuag at opsiynau amgen heb fawn wedi bod yn araf ac yn anghyson...**

*Despite thirty years of campaigning against extraction and increased public outcry, peat continues to be sold in vast quantities for amateur and professional horticultural use, with huge consequences for nature and climate.*

***Er gwaethaf deng mlynedd ar hugain o ymgyrchu yn erbyn echdynnu a phrotestio cynyddol gan y cyhoedd, mae symiau enfawr o fawn yn parhau i gael eu gwerthu at ddefnydd garddwriaethol, boed hynny'n ddefnydd proffesiynol neu amatur, ac mae effeithiau hynny ar natur a'r hinsawdd yn aruthrol.***

*...missing out...  
...ar eu colled...*

*...digital by default...  
...digidol yn ddiodyn...*

*...the pandemic has also further exposed and deepened the divide between the digital haves and have nots.*

***...mae'r pandemig hefyd wedi amlygu ac ehangu'r bwlch ymhellach rhwng y rheiny sydd â mynediad at dechnoleg ddigidol a'r rheiny sydd heb fynediad ati.***

*...or with offline alternatives being limited or restricted.  
...neu mae dewisiadau all-lein naill ai'n brin neu'n gyfyngedig.*

*These individuals often have a key need to use the internet, and are seriously disadvantaged by limited or no access to offline alternatives.*

***...bydd angen dybryd i'r unigolion hyn ddefnyddio'r rhyngwrdd a bydd mynediad cyfyngedig neu ddiffyg mynediad at opsiynau all-lein yn anfantais ddifrifol iddynt.***

*...in worse health, poorer and less well educated than their peers.  
...yn waeth eu hiechyd, yn dlotach, ac yn llai addysgedig na'u cyfoedion.*

Enghreifftiau fel y rhain a sicrhodd fod 12 o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus, ond hyd yn oed yng ngwaith y goreuon, ni lwyddodd neb i gynnal y safon uchaf ar draws holl elfennau'r ddau ddarn, a hynny er bod yr asesu ar y lefel hon yn caniatáu rhai mân lithriadau. Felly, rhaid pwysleisio'r angen am wirio ystyr y cyfieithiad yn erbyn y gwreiddiol yn fanwl. Fel arall, mae perygl y bydd elfennau'n cael eu hychwanegu, eu hepgor neu eu camgyfieithu. Mae datblygu sgiliau prawfddarllen a mireinio yn rhan annatod o grefft y cyfieithydd, a charwn annog yr holl ymgeiswyr i fanteisio ar bob cyfle a gânt i wella'r sgiliau hynny.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am bob cefnogaeth a chymorth.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg**

## Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 10

Llwyddo: 5

Llwyddodd pump o'r deg ymgeisydd yn yr arholiad, a sawl un arall yn dod yn agos ati. Ni ddylai'r rheini na lwyddodd anobeithio: roedd rhai yn eithaf agos ati, ond bod gwall sylfaenol, neu flerwch cyffredinol, wedi golygu nad oeddent yn cyrraedd y safon y tro hwn. Gair o rybudd i'r rhai a lwyddodd, hefyd - peidiwch â gorffwys ar eich rhwyfau, oherwydd mae gwallau yn y sgriptiau hyn yn ogystal. Mewn mwy nag un achos, cyfres o fân wallau oedd y rheswm pam na chafwyd llwyddiant – ar eu pen eu hunain, byddai modd maddau iddynt, ond roedd y darn fel cyfanwaith yn rhoi'r argraff o ddiffyg gofal.

Yn wir, gwallau esgeulus oedd y mwyafrif o'r rhai a welwyd drwyddi draw, gyda llawer ohonynt yn bethau y dylid bod wedi eu gweld wrth wirio a phrawf ddarllen y gwaith. Gall hyn yn anochel arwain rhywun i feddwl naill ai fod yr ymgeiswyr yn llai na thrylwyr wrth wirio eu cyfieithiad, neu fod eu gafael ar yr iaith yn ddiffygiol.

Gyda'r ddau ddarn yn addasiadau o erthyglau mewn cylchgronau poblogaidd, mae'r arddull yn glir, yn anffurfiol ac yn hygyrch. At ei gilydd, dyna a gafwyd yn y cyfieithiadau, gydag enghreifftiau o gyfieithu da a brawddegau'n llifo'n rhwydd e.e.

*Mae'r pwysau cynyddol ar ofalwyr hen ac ifanc sy'n cefnogi rhywun agos wedi dwysáu yn ystod y pandemig.*

***The increasing pressures on young and older carers who support a loved one have intensified during the pandemic.***

*Daeth rheoliadau i rym bryd hynny i'n diogelu, ac erbyn hyn mae'n hawliau wedi'u hymgorffori yn Neddf Cydraddoldeb 2010.*

***Regulations came into force at that time to protect us, and our rights have now been enshrined in the Equalities Act 2010.***

***not only have more carers come to light*** – ymgais dda i gyfieithu '*dod i'r amlwg*', a roes drafferth i sawl ymgeisydd.

Enghreifftiau da eraill yw ***each and every one of us*** ac ***every single one of us*** am '*bob un ohonom*', a ***still work from time to time because you enjoy it***, sy'n llyfn ac yn naturiol.

Ond er nad arddull adroddiad ffurfiol neu ddogfen bolisi sydd yma, mae i anffurfioldeb ei ffiniau. Rhaid cynnal cywirdeb a safon iaith. Siom oedd gweld mai tri ymgeisydd yn unig lwyddodd i gyfieithu '*llai o staff gofal proffesiynol*' yn gywir, gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn rhoi ***less professional care staff*** yn lle ***fewer professional care staff***, sy'n newid ystyr y frawddeg ac yn taflu amheuaeth ar broffesiynoldeb y staff gofal.

Gellir dadlau bod iaith yn newid ac yn esblygu, gyda ffurfiau berfol newydd yn ymddangos. Serch hynny, wrth ysgrifennu – a chyfieithu – darnau fel y rhain, dylid cadw at y ffurfiau safonol. Nid yw'r ferf yn taro'r nodyn cywir yn y cyfieithiad hwn – a ymddangosodd mewn dau ymgais:

...sefyllfa oedd eisoes yn heriol wedi gwaethygu'n sylweddol.

**...a situation that was already challenging has drastically gotten worse.**

Efallai y byddai'n ffurf dderbyniol yn America, ond ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa'r wlad hon mae'r awdur a dylai'r cyfieithiad adlewyrchu hynny.

Byddai disgwyl i gyfieithydd proffesiynol wybod sut i ddefnyddio collnodau. Ond cafwyd sawl enghraifft yn dangos diffyg dealltwriaeth neu ddiffyg gofal yma hefyd e.e.

*Efallai eich bod hyd yn oed yn eich wythdegau*

**You may even be in your eighty's** (nid y collnod yw'r unig wall yn y cymal hwn – nid yw **eightys** yn gywir chwaith)

*...effaith y pandemig ar iechyd meddwl gofalwyr yng Nghymru*

**...the impact of the pandemic on carers mental health in Wales**

Siomedig oedd gweld cynifer o'r ymgeiswyr yn methu cysoni berfau ac enwau unigol/lluosog e.e.

**The amount of compensation an employer could be ordered to pay in these kinds of cases vary a great deal**

**The compensation amounts that an employer can be ordered to pay in such cases varies widely**

**...there are a great range**

**The increasing pressures on carers... has intensified during the pandemic**

Mae dod o hyd i'r gair cywir wrth gyfieithu'n un o hanfodion y gwaith. Dyma lle mae 'gwrando' ar y cyfieithiad yn bwysig, er mwyn sicrhau ei fod yn dilyn teithi'r iaith. I raddau helaeth, llwyddodd yr ymgeiswyr i wneud hynny'n foddhaol, ond roedd rhai eithriadau. Go brin y byddai'r ymgeisydd a ddefnyddiodd **non-paid carers** am 'gofalwyr di-dâl' yn defnyddio'r term hwnnw wrth sgwrsio yn Saesneg – mae **unpaid** yn fwy naturiol o lawer. Pe bai'r ymgeisydd hwnnw wedi 'gwrando' ar y cyfieithiad, mae'n bur debyg y byddai wedi defnyddio'r term mwy addas.

Un gair a achosodd beth trafferth oedd 'erledigaeth'. Cyfieithodd y rhan fwyaf hwn fel **persecution/persecuted**, sy'n gywir, ond un yn unig a ddefnyddiodd **feel victimised**, sydd yn cyfleu'r naws yn well. Gwelwyd mwy nag un defnydd o **prosecution/prosecuted**, sy'n anghywir.

Cafodd llawer anhawster hefyd i gyfleu 'Gocheled pob cyflogwr...' Defnyddiodd un **beware**, sy'n iawn, ond nid yw **beware from** yn gywir; defnyddiodd un arall **woe**, ond nid yr ymadrodd cyflawn, sef **woe betide**.

Gellir gweld o'r uchod mai'r cam gwirio a phrawf ddarllen hollbwysig oedd yr hyn a faglod yr ymgeiswyr yn bennaf yn y cylch arholi hwn unwaith eto. Ni chafwyd yr un ymgais drychinebus, ac er bod rhai gwallau digon sylfaenol yn rhai o'r papurau, mae rhinweddau

hefyd yn perthyn i bob un. O ymarfer yn rheolaidd, ennill profiad a dysgu canolbwyntio ar fanylion, rwy'n hyderus y gallai llwyddiant fod o fewn cyrraedd pob un o'r ymgeiswyr. I gloi, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testunau am eu gwaith diwyd.

**Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg**